| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 MAI 2025** |
| TEITL | **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2025/2026** |
| DIBEN | **CYFLWYNO'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL I'R PWYLLGOR** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO** |
| CAMAU GWEITHREDU | **CYMERADWYO'R STRATEGAETH A'R CYNLLUN BLYNYDDOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer 2025/26 wedi'u hatodi i'w hadolygu a'u hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 2. CEFNDIR

Strategaeth Archwilio Mewnol

2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), yn benodol Safon 9.2 "Strategaeth Archwilio Mewnol" yn nodi bod rhaid i'r prif weithredwr archwilio[1] ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol newydd wedi'i datblygu sy'n alinio'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r Cyngor i gyd-fynd â gwaith y swyddogaeth archwilio mewnol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn helpu i ddarparu cyfeiriad strategol i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymagwedd at gyflawni ei amcanion allweddol ac yn dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn briodol.

2.2 Mae'r Safon yn nodi bod yn rhaid i'r strategaeth archwilio mewnol gynnwys gweledigaeth, amcanion strategol, a mentrau cefnogol ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'r strategaeth archwilio mewnol yn helpu i lywio'r swyddogaeth archwilio mewnol tuag at gyflawni'r mandad archwilio mewnol.

Cynllun Archwilio Mewnol

2.3 Mae Safon 9.4 "Cynllun Archwilio Mewnol" y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi bod yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad.

---

[1]Rheolwr Archwilio

2.4 Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar asesiad o strategaethau, amcanion a risgiau Cyngor Gwynedd.

2.2 Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol, gan gynnwys y casgliad blynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau, a pherfformiad archwilio mewnol yn erbyn ei amcanion. (Y Cod)

2.3 Er mwyn i archwilio mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid iddo addasu i ddisgwyliadau sy'n newid a sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y Cyngor. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn hanfodol i barhau i fod yn berthnasol – yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, gan wneud cyfraniadau ystyrlon at lywodraethu cyffredinol, rheoli risg, a rheolaethau mewnol y Cyngor.

2.4 Defnyddiwyd proses systematig a strwythuredig i ddatblygu'r cynllun Archwilio Mewnol, gan helpu i alluogi i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei weledigaeth a'i genhadaeth.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/2026, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.